**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
—
**Health and Social Care Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565

Alexandra Howells
Prif Weithredwr
Addysg a Gwella Iechyd Cymru

Sue Evans
Prif Weithredwr
Gofal Cymdeithasol Cymru

23 Tachwedd 2021

Annwyl Alexandra a Sue

Cwestiynau dilynol ar ôl sesiwn dystiolaeth ar 4 Tachwedd 2021 ar *Cymru Iachach: Ein Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol*

Diolch am ddod i'n cyfarfod ddydd Iau 4 Tachwedd 2021 ac ymateb i'n cwestiynau. Yn dilyn y sesiwn, cytunodd yr Aelodau i ysgrifennu atoch gyda nifer o gwestiynau dilynol, fel sydd wedi'u hamlinellu yn yr atodiad i'r llythyr hwn.

Byddem yn ddiolchgar o gael eich ymateb erbyn dydd Iau 16 Rhagfyr.

Yn gywir

Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

## Atodiad: cwestiynau dilynol ar ôl y sesiwn dystiolaeth ar 4 Tachwedd 2021

Yn dilyn y sesiwn dystiolaeth gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru ar 4 Tachwedd 2021, byddem yn croesawu gwybodaeth bellach ar y materion a restrir isod. Byddem yn ddiolchgar o gael eich ymateb erbyn dydd Iau 16 Rhagfyr.

### Addysg a hyfforddiant

1. Buom yn trafod effaith y pandemig gyda chi ar leoliadau gwaith clinigol a gallu myfyrwyr gofal iechyd i ennill sgiliau digonol mewn ymarfer clinigol. Lle gallai mynediad i leoliadau clinigol fod wedi'i gyfyngu gan y pandemig – er enghraifft mewn perthynas â deintyddiaeth – a oes gennym sicrwydd bod ymarferwyr sydd newydd gymhwyso wedi gallu ennill y sgiliau a'r profiad i ymarfer yn ddiogel?

2. Beth yw eich barn ar rôl rhagnodi anfeddygol, er enghraifft gan fferyllwyr neu weithwyr proffesiynol perthynol i iechyd, a pha gynlluniau sydd gennych ar waith i gefnogi hyn?

3. Sut y bydd y strategaeth gweithlu neu'r cynlluniau gweithredu cysylltiedig yn cefnogi'r broses o ddatblygu sgiliau estynedig a rolau ymarfer uwch ar draws grwpiau proffesiynol, ac yn sicrhau bod gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol yn gallu gweithio hyd begwn eu trwyddedau?

### Hyfforddiant a pharodrwydd digidol

4. Yn ystod y sesiwn buom yn trafod thema'r strategaeth 'adeiladu gweithlu sy'n barod yn ddigidol' gyda chi. Rhowch fanylion pellach am ba asesiadau a wnaed o'r buddsoddiad ychwanegol mewn hyfforddiant (amser ariannol ac amser staff) a allai fod yn ofynnol i sicrhau bod y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol yn barod, ac yn gallu mabwysiadu technolegau newydd a harneisio arloesedd.

### Amrywiaeth a chynhwysiant

5. Sut mae strategaeth y gweithlu a'r cynlluniau gweithredu cysylltiedig yn rhoi ystyriaeth ddigonol i'r gweithlu cyfan ar draws iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys nid yn unig ymarferwyr rheng flaen ond hefyd staff ategol a rheolwyr?

6. Mae tystiolaeth gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol yn tynnu sylw at y ffaith bod cyfradd pasio arholiadau ar gyfer hyfforddeion BAME 15 y cant yn is nag ar gyfer hyfforddeion gwyn ar draws yr holl arbenigeddau meddygol yng Nghymru. Amlinellwch pa rôl sydd gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru wrth fynd i'r afael â'r rhwystrau a brofir gan fyfyrwyr o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, ac yn benodol pa gamau sy'n cael eu cymryd i ddeall y bwlch cyrhaeddiad, a mynd i'r afael â hwnnw.

7. Yn ystod y sesiwn gwnaethoch sôn fod bylchau yn y data monitro cydraddoldeb ac amrywiaeth sydd gennych ar y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol, er enghraifft o ran cefndir ethnig a statws anabledd. Fe wnaethoch gydnabod bod angen gwthio i gwblhau data fel bod gennym niferoedd mwy cywir. Amlinellwch pa gamau a gymerir i wella cyflawnrwydd a chadernid y data hwn.

8. Amlinellwch sut mae'r strategaeth – a'r cynlluniau gweithredu cysylltiedig – yn cydnabod ac yn mynd i'r afael â'r diffyg amrywiaeth mewn rhai meysydd, er enghraifft gwaith cymdeithasol, yn enwedig mewn swyddi uwch reolwyr.

## Y Gymraeg a gwasanaethau dwyieithog

9. Pa brosesau sydd ar waith ar draws gwasanaethau iechyd a gofal i nodi ble mae bylchau o ran sgiliau Cymraeg, a sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael yn systematig ar gyfer Addysg a Gwella Iechyd Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru?

10. Yn ystod y sesiwn, buom yn trafod argaeledd hyfforddiant nyrsio dwyieithog a Chymraeg gyda chi, ac NVQs gwaith cymdeithasol, gan gynnwys lleoliadau. Rhowch fanylion nifer y lleoedd hyfforddi o'r fath a'u dosbarthiad ledled Cymru. At hynny, byddem yn croesawu gwybodaeth am y nifer sy'n manteisio ar y lleoedd hyfforddi hyn, a sut yr asesir lefel y galw am leoedd hyfforddi cyfrwng Cymraeg/dwyieithog.

11. Mae ambell randdeiliad wedi codi pryderon nad yw cyllido gofal yn dwyn cost darparu gwasanaethau dwyieithog neu Gymraeg i ystyriaeth, gan gynnwys cynyddu sgiliau Cymraeg yn y gweithlu. Beth yw eich barn am y modd y gellir mynd i'r afael â'r pryderon hyn?

## Data

12. Yn eich papur tystiolaeth rydych chi'n cyfeirio at system casglu data newydd ar gyfer gofal cymdeithasol, sy'n casglu data gan ddarparwyr statudol, preifat a gwirfoddol. Amlinellwch sut y bydd y system yn ystyried cyfraniad gofalwyr di-dâl.

## Materion eraill

Yn ystod y sesiwn, gwnaethoch gytuno i rannu'r canlynol gyda'r Pwyllgor:

13. Papur briffio ar yr ymgyrch recriwtio *We Care*.

14. Manylion yr adnoddau cenedlaethol sydd ar gael trwy'r strategaeth i gefnogi llesiant staff iechyd a gofal cymdeithasol.